Mumbles Community Council

# Minutes of the Full Council Meeting of Mumbles Community Council held on 26th January 2026 at 6.30 pm (Hybrid Meeting at the Ostreme Centre and via Teams)

**Members Present:** Cllrs Will Thomas (Chair), Trevor Carr, Pam Erasmus, Rebecca Fogarty, Laura Gilbert, Richard Jarvis, Phil Keeton, Sara Keeton, Xanthe Keeton, David Lewis, Rob Marshall, Helen Nelson, Francesca O'Brien, Angela O'Connor, Ian Scott, Carrie Townsend Jones, Tim Zhou

**Officers Present:** Kerry-Leigh Grabham – Chief Officer, Paul Beynon – Deputy Chief Officer and RFO

**Members of the Public Present:** Michael Parkin – Mumbles Rangers Football Club, Steffan Edwards – Mumbles Rugby Club, Simon Evans – Mumbles Rugby Club

| Minute Ref | Minute Details |
|---|---|
| **FC2601-01** | **Apologies for absence –** Cllr Martin O'Neill |
| **FC2601-02** | **Declarations of Interest**<br>Cllr Rebecca Fogarty personal and prejudicial interest in agenda item number 6. Reasons Cllr of Swansea City Council and cabinet member, Employee of the Linden Centre.<br>Cllr Will Thomas personal interest in agenda item number 6. Reason Cllr of Swansea City Council.<br>Cllr Sara Keeton personal interest in agenda item number 6. Reason Cllr of Swansea City Council.<br>Cllr Francesca O'Brien personal interest in agenda item number 6. Reason Cllr of Swansea City Council<br>Cllr Angela O'Connor personal interest in agenda item number 6. Reason Cllr of Swansea City Council. |
| **FC2601-03** | **Variation to Order of Business**<br>**In accordance with Standing Order 10(a)(vi),** a motion was proposed and approved to vary the order of business for the meeting, with Item 6 brought forward and Item 4 deferred to the end of the agenda.<br>**Resolved:**<br>That the order of business be amended as outlined above.<br>**Vote:**<br>Unanimously agreed. |

Mumbles Community Council

| | |
|---|---|
| **FC2601-03a** | **Public Participation – Suspension of Standing Orders**<br>Members were advised that members of the public had complied with the Council's public participation policy to give advance notice to speak; however, this item had been omitted from the agenda.<br>**Resolved:**<br>That Standing Orders be suspended to allow members of the public to speak on items on the agenda.<br>**Vote:**<br>Unanimously agreed |
| FC2601-03b | **Public Participation**<br>The Chair invited the following representatives to address the Council (up to five minutes each):<br>• **Simon Evans**, Mumbles Rugby Club<br>• **Steffan Edwards,** Mumbles Rugby Club<br>• **Michael Parkin**, Mumbles Rangers Football Club<br><br>The Council received representations from Mumbles Rugby Club and Mumbles Rangers Football Club in support of proposals to reconfigure part of the Pavilion from a changing room into a multi-use function room.<br>The clubs outlined that the change is supported for the following reasons:<br>• The Pavilion is increasingly required to serve multiple user groups, including sports clubs, community organisations, and the general public, and current internal layouts limit its effective use.<br>• A function room would provide a shared, flexible space capable of supporting match-day hospitality, club meetings, community activities, and private or civic events, thereby increasing year-round utilisation of the facility.<br>• Both clubs experience capacity constraints on match days, particularly for post-match hosting, families, volunteers, and visiting teams, which cannot be accommodated adequately within the existing layout.<br>• The proposed reconfiguration would support financial sustainability by creating opportunities for additional income through events and bookings, helping to offset operating costs and reduce reliance on public subsidy.<br>• The clubs highlighted that improved facilities would enhance the visitor and participant experience, support volunteer engagement, and strengthen Underhill's role as a community hub.<br>• It was noted that the proposal aligns with a collaborative approach between the Council and resident sports clubs, with both clubs expressing a willingness to engage constructively in future planning and development.<br><br>Members noted and thanked the clubs for their representations. |

Mumbles Community Council

| | |
|---|---|
| **FC2601-04** | **Consideration of the Draft Council Budget 2026/2027**<br>The Council noted that the draft budget had been circulated to Members in advance of the meeting, in line with the relevant legislative and governance requirements.<br><br>The Chair advised that he and the Vice Chair had conducted a detailed review of the draft budget and had prepared a proposal identifying areas for cost savings. Members were informed that, while the Council has traditionally reviewed each budget line in detail, the approach presented differed from previous practice.<br><br>As a result, a detailed discussion took place. Members acknowledged that the discussion was robust, reflecting differing views on the proposed approach.<br><br>Following deliberation, it was proposed and seconded that the Council proceed to consider the budget proposal as tabled by the Chair.<br><br>Councillor Rebecca Fogarty left the meeting while this item was initially discussed due to a declared interest. Councillor Fogarty later returned to the meeting to participate in discussions where she was able, before leaving again before the vote.<br><br>A vote was then taken on the approval of the Council's budget for 2026/2027.<br>• **Votes in favour:** 8<br>• **Votes against:** 8<br><br>As the vote was tied, the Chair exercised their casting vote in accordance with Standing Orders.<br><br>**Resolved:**<br>That the Council's budget for the 2026/2027 financial year, totalling **£903,000**, be approved.<br><br>**Precept 2026/2027**<br>In the same vote for agreeing the budget, the Council's precept for the 2026/2027 financial year was agreed, based on the approved budget.<br>• **Votes in favour:** 8<br>• **Votes against:** 8<br><br>With the vote tied, the Chair again exercised their casting vote.<br><br>**Resolved:**<br><br>That the precept for the 2026/2027 financial year be set at **£ 87.90**. |

Mumbles Community Council

| | |
|---|---|
| **FC2601-05** | **Recommendation from Community and Social Development Committee – Flip the Streets Project**<br><br>Council considered a recommendation from the Community and Social Development Committee regarding the Flip the Streets Project.<br><br>Due to technical difficulties, the accompanying video presentation could not be played during the meeting. Members were, however, talked through the Flip the Streets Project, which aims to address and reduce graffiti through a structured intervention approach.<br><br>Members discussed the proposal and acknowledged the project's potential to address graffiti at the skate park and improve the local environment.<br><br>**Resolved:**<br>That the Council approve and proceed with participation in the Flip the Streets Project.<br><br>**Vote:**<br>Unanimously agreed. |
| **FC2601-06** | **Exclusion of Press and Public**<br><br>**Resolved:**<br>That, in accordance with the Public Bodies (Admission to Meetings) Act 1960, the press and public be excluded from the meeting for the following item due to the confidential nature of the business to be transacted.<br><br>The recording was stopped. |
| **FC2601-06a** | **Ostreme Centre – Door Repair (Delegated Authority)**<br>Members were reminded that this matter had previously been considered by Council, at which time three quotations for door repair works were presented but not approved.<br>A further quotation was now presented, this time for the installation of a uPVC door.<br>Members discussed the proposal and expressed concerns regarding the environmental impact of uPVC, noting that it would not align with the Council's sustainability objectives.<br>Following discussion, it was proposed and seconded that authority be delegated to the Chief Officer to proceed with the door repair works on a like-for-like basis, expressly excluding the use of uPVC. |

Mumbles Community Council

| | |
|---|---|
| | **Resolved:**<br>That delegated authority be granted to the Chief Officer to arrange the repair of the Ostreme Centre door on a like-for-like basis, and that the use of uPVC be excluded. |

The meeting ended at 20.50pm

Mumbles Community Council

# Cofnodion Cyfarfod Cyngor Llawn
# Cyngor Cymuned y Mwmbwls
# a gynhaliwyd ar 26 Ionawr 2026 am 6.30 pm
# (cyfarfod hybrid yng Nghanolfan Ostreme a thrwy gyfrwng Teams)

**Aelodau yn bresennol:** Y cynghorwyr Will Thomas (cadeirydd), Trevor Carr, Pam Erasmus, Rebecca Fogarty, Laura Gilbert, Richard Jarvis, Phil Keeton, Sara Keeton, Xanthe Keeton, David Lewis, Rob Marshall, Helen Nelson, Francesca O'Brien, Angela O'Connor, Ian Scott, Carrie Townsend Jones, Tim Zhou

**Swyddogion yn bresennol:** Kerry-Leigh Grabham – Prif Swyddog, Paul Beynon – Dirprwy Brif Swyddog a Swyddog Ariannol Cyfrifol

**Aelodau'r cyhoedd yn bresennol:** Michael Parkin – Clwb Pêl-droed Mumbles Rangers, Steffan Edwards – Clwb Rygbi'r Mwmbwls, Simon Evans – Clwb Rygbi'r Mwmbwls

| Cyfeirnod y cofnodion | Manylion y cofnodion |
|---|---|
| **FC2601-01** | **Ymddiheuriadau am absenoldeb** – Y Cynghorydd Martin O'Neill |
| **FC2601-02** | **Datganiadau o fuddiant**<br>Gwnaeth y Cynghorydd Rebecca Fogarty ddatganiad o fuddiant personol a rhagfarnus ynghylch eitem Rhif 6 ar yr agenda. Rhesymau: cynghorydd Cyngor Dinas Abertawe ac aelod cabinet, gweithiwr Canolfan Linden.<br>Gwnaeth y Cynghorydd Will Thomas ddatganiad o fuddiant personol ynghylch eitem Rhif 6 ar yr agenda. Rheswm: cynghorydd Cyngor Dinas Abertawe.<br>Gwnaeth y Cynghorydd Sara Keeton ddatganiad o fuddiant personol ynghylch eitem Rhif 6 ar yr agenda. Rheswm: cynghorydd Cyngor Dinas Abertawe.<br>Gwnaeth y Cynghorydd Francesca O'Brien ddatganiad o fuddiant personol ynghylch eitem Rhif 6 ar yr agenda. Rheswm: cynghorydd Cyngor Dinas Abertawe.<br>Gwnaeth y Cynghorydd Angela O'Connor ddatganiad o fuddiant personol ynghylch eitem Rhif 6 ar yr agenda. Rheswm: cynghorydd Cyngor Dinas Abertawe. |
| **FC2601-03** | **Amrywiad i drefn y busnes**<br>**Yn unol â Rheol Sefydlog 10(a)(vi)**, cynigiwyd a chymeradwywyd cynnig i amrywio trefn busnes y cyfarfod, gydag Eitem 6 wedi'i dwyn ymlaen ac Eitem 4 wedi'i gohirio tan ddiwedd yr agenda.<br>**PENDERFYNWYD:**<br>Bod trefn y busnes yn cael ei diwygio fel yr amlinellwyd uchod. |

Mumbles Community Council

| | |
|---|---|
| | **Pleidlais:**<br>Cytunwyd yn unfrydol. |
| **FC2601-03a** | **Cyfranogiad y cyhoedd – atal Rheolau Sefydlog**<br>Dywedwyd wrth yr aelodau fod aelodau'r cyhoedd wedi cydymffurfio â pholisi cyfranogiad y cyhoedd y cyngor i roi rhybudd ymlaen llaw i siarad; fodd bynnag, roedd yr eitem hon wedi'i hepgor o'r agenda.<br>**PENDERFYNWYD:**<br>Bod y Rheolau Sefydlog yn cael eu hatal er mwyn caniatáu i aelodau'r cyhoedd siarad ar eitemau ar yr agenda.<br>**Pleidlais:**<br>Cytunwyd yn unfrydol. |
| FC2601-03b | **Cyfranogiad y cyhoedd**<br>Gwahoddodd y cadeirydd y cynrychiolwyr canlynol i annerch y cyngor (hyd at bum munud yr un):<br>• **Simon Evans**, Clwb Rygbi'r Mwmbwls<br>• **Steffan Edwards**, Clwb Rygbi'r Mwmbwls<br>• **Michael Parkin**, Clwb Pêl-droed Mumbles Rangers<br><br>Derbyniodd y cyngor sylwadau gan Glwb Rygbi'r Mwmbwls a Chlwb Pêl-droed Mumbles Rangers i gefnogi cynigion i ad-drefnu rhan o'r pafiliwn o ystafell newid yn ystafell ddigwyddiadau aml-ddefnydd.<br>Amlinellodd y clybiau fod y newid yn cael ei gefnogi am y rhesymau canlynol:<br>• Mae angen cynyddol i'r pafiliwn wasanaethu nifer o grwpiau defnyddwyr, gan gynnwys clybiau chwaraeon, sefydliadau cymunedol, a'r cyhoedd yn gyffredinol, ac mae'r cynlluniau mewnol presennol yn cyfyngu ar ei ddefnydd effeithiol.<br>• Byddai ystafell ddigwyddiadau yn darparu gofod hyblyg a rennir a fyddai'n gallu cynnal lletygarwch ar ddiwrnodau gemau, cyfarfodydd clwb, gweithgareddau cymunedol, a digwyddiadau preifat neu ddinesig, a thrwy hynny gynyddu defnydd y cyfleuster drwy gydol y flwyddyn.<br>• Mae'r ddau glwb yn profi cyfyngiadau capasiti ar ddiwrnodau gemau, yn enwedig o ran cynnal digwyddiadau ar ôl gemau, teuluoedd, gwirfoddolwyr, a thimau sy'n ymweld, na ellir eu cynnwys yn ddigonol o fewn y cynllun presennol.<br>• Byddai'r ad-drefnu arfaethedig yn cefnogi cynaliadwyedd ariannol drwy greu cyfleoedd ar gyfer incwm ychwanegol drwy ddigwyddiadau ac archebion, gan helpu i wrthbwyso costau gweithredu a lleihau dibyniaeth ar gymorthdaliadau cyhoeddus.<br>• Tynnodd y clybiau sylw at y ffaith y byddai cyfleusterau gwell yn gwella profiad yr ymwelwyr a'r cyfranogwyr, yn cefnogi ymgysylltiad gwirfoddolwyr, ac yn cryfhau rôl Underhill fel canolfan gymunedol. |

Mumbles Community Council

| | |
|---|---|
| | • Nodwyd bod y cynnig yn cyd-fynd â dull cydweithredol rhwng y cyngor a chlybiau chwaraeon preswyl, gyda'r ddau glwb yn mynegi parodrwydd i ymgysylltu'n adeiladol â chynllunio a datblygu yn y dyfodol.<br><br>Nododd yr aelodau'r sylwadau gan y clybiau a gwnaethant ddiolch iddynt amdanynt. |
| **FC2601-04** | **Ystyriaeth o gyllideb ddrafft 2026/27 y cyngor**<br>Nododd y cyngor fod y gyllideb ddrafft wedi'i dosbarthu i'r aelodau cyn y cyfarfod, yn unol â'r gofynion deddfwriaethol a llywodraethu perthnasol.<br><br>Dywedodd y cadeirydd ei fod ef a'r is-gadeirydd wedi cynnal adolygiad manwl o'r gyllideb ddrafft ac wedi paratoi cynnig yn nodi meysydd ar gyfer arbedion cost. Hysbyswyd yr aelodau, er bod y cyngor wedi adolygu pob llinell gyllideb yn fanwl yn draddodiadol, fod y dull a gyflwynwyd yn wahanol i'r arfer blaenorol.<br><br>O ganlyniad, cynhaliwyd trafodaeth fanwl. Cydnabu'r aelodau fod y drafodaeth yn gadarn, gan adlewyrchu gwahanol safbwyntiau ar y dull arfaethedig.<br><br>Yn dilyn trafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd y dylai'r cyngor fwrw ymlaen i ystyried y cynnig cyllideb fel y'i cyflwynwyd gan y cadeirydd.<br><br>Gadawodd y Cynghorydd Rebecca Fogarty y cyfarfod tra bod yr eitem hon yn cael ei thrafod yn wreiddiol oherwydd datganiad o fuddiant. Dychwelodd y Cynghorydd Fogarty i'r cyfarfod yn ddiweddarach i gymryd rhan mewn trafodaethau lle'r oedd hi'n gallu, cyn gadael eto cyn y bleidlais.<br><br>Yna cynhaliwyd pleidlais ar gymeradwyo cyllideb y cyngor ar gyfer 2026/27.<br>• **Pleidleisiau o blaid:** 8<br>• **Pleidleisiau yn erbyn:** 8<br><br>Gan fod y bleidlais yn gyfartal, defnyddiodd y cadeirydd ei bleidlais fwrw yn unol â'r Rheolau Sefydlog.<br><br>**PENDERFYNWYD:**<br>Bod cyllideb y cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2026/27, sef cyfanswm o **£903,000**, yn cael ei chymeradwyo.<br><br>**Praesept 2026/27**<br>Yn yr un bleidlais i gytuno ar y gyllideb, cytunwyd ar braesept y cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2026/27, yn seiliedig ar y gyllideb a gymeradwywyd.<br>• **Pleidleisiau o blaid:** 8 |

Mumbles Community Council

| | |
|---|---|
| | • **Pleidleisiau yn erbyn:** 8<br><br>Gyda'r bleidlais yn gyfartal, defnyddiodd y cadeirydd ei bleidlais fwrw unwaith eto.<br><br>**PENDERFYNWYD:**<br><br>Bod y praesept ar gyfer blwyddyn ariannol 2026/27 yn cael ei osod ar **£87.90**. |
| **FC2601-05** | **Argymhelliad gan y Pwyllgor Datblygu Cymunedol a Chymdeithasol – Prosiect Flip the Streets**<br><br>Ystyriodd y cyngor argymhelliad gan y Pwyllgor Datblygu Cymunedol a Chymdeithasol ynghylch y Prosiect Flip the Streets.<br><br>Oherwydd anawsterau technegol, ni ellid chwarae'r cyflwyniad fideo cysylltiedig yn ystod y cyfarfod. Fodd bynnag, trafodwyd Prosiect Flip the Streets â'r aelodau, sy'n anelu at fynd i'r afael â graffiti a'i leihau trwy ddull ymyrraeth strwythuredig.<br><br>Trafododd yr aelodau'r cynnig a chydnabod potensial y prosiect i fynd i'r afael â graffiti yn y parc sglefrio a gwella'r amgylchedd lleol.<br><br>**PENDERFYNWYD:**<br>Bod y cyngor yn cymeradwyo ac yn bwrw ymlaen â chymryd rhan ym Mhrosiect Flip the Streets.<br><br>**Pleidlais:**<br>Cytunwyd yn unfrydol. |
| **FC2601-06** | **Gwahardd y wasg a'r cyhoedd**<br><br>**PENDERFYNWYD:**<br>Yn unol â Deddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960, y dylid gwahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem ganlynol oherwydd natur gyfrinachol y busnes i'w drafod.<br><br>Cafodd y recordiad ei atal. |
| **FC2601-06a** | **Canolfan Ostreme – atgyweirio drws (awdurdod dirprwyedig)**<br>Atgoffwyd yr aelodau fod y mater hwn wedi cael ei ystyried o'r blaen gan y cyngor, ac ar y pryd cyflwynwyd tri dyfynbris ar gyfer gwaith atgyweirio drws ond ni chawsant eu cymeradwyo. |

Mumbles Community Council

| | |
|---|---|
| | Cyflwynwyd dyfynbris pellach nawr, y tro hwn ar gyfer gosod drws uPVC. Trafododd yr aelodau'r cynnig a mynegwyd pryderon ynghylch effaith amgylcheddol uPVC, gan nodi na fyddai'n cyd-fynd ag amcanion cynaliadwyedd y cyngor.<br>Yn dilyn trafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd dirprwyo awdurdod i'r Prif Swyddog i fwrw ymlaen â'r gwaith atgyweirio drws ar sail tebyg am debyg, gan wahardd yn benodol ddefnyddio uPVC.<br>**PENDERFYNWYD:**<br>Bod awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Prif Swyddog i drefnu atgyweirio drws Canolfan Ostreme ar sail tebyg am debyg, a bod y defnydd o uPVC yn cael ei wahardd. |